**FERSIWN TERFYNOL**

# TGAU

# CYNLLUN MARCIO

# HAF 2015

# CYMRAEG AIL IAITH CYMHWYSOL
# 4561/01 a 4561/02

© WJEC CBAC Cyf.

**UNED 1**
**C.1** [12 + ✓ = 3] = **[15]**

(i) Llenwi grid. 1 marc yr un = **5 marc.**

| | |
|---|---|
| CYFEIRIAD | *Llanfyrnach, Sir Benfro* |
| CÔD POST | *SA35 0BZ* |
| RHIF FFÔN | *(01239) 831631* |
| GWEFAN | *www.manseldavies.co.uk* |
| FAINT O STAFF SYDD? | *211* |

(ii) Dewis lluniau. 1 marc yr un = **3 marc.**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| ✓ | ✓ | | ✓ | |

(iii) Llenwi manylion ffeil. 1 marc am bob 2 o'r cynnyrch = **2 farc.**

Atebion posibl (rhywle yn y bocs) – iogwrt / hufen / pwdin reis / llaeth / menyn
Pwdin = 0 marc

(iv) Neges e-bost = **5 marc (2 + ✓ = 3)**

1. 1954 = 1 marc
2. Yr Urdd / Y Scarlets = 1 marc

**3 marc iaith** = 1 marc iaith am bob ateb fel brawddeg gywir = 2 farc posibl
3ydd marc iaith am gyfarchiad neu ddiwedd priodol

Rhaid bod marciau cynnwys cyn y gellir gwobrwyo marciau iaith.



© WJEC CBAC Cyf.

**C.2 Llenwi Ffurflen** [8 + ✓ = 7] = **[15]**

**Cynnwys 8 marc**

Does dim modd gwobrwyo am ailadrodd ateb oni bai bod gwybodaeth ychwanegol

- Dim clod am enw
- **Cyfeiriad** – y lleoliad/ stryd/ ardal/ sir yn Gymraeg **(1 marc)**
- **Oed** – y rhif yn Gymraeg neu'r ateb mewn brawddeg e.e. Dw i'n 16 oed. **(1 marc)**
- **Ysgol / Gweithle** – enw ysgol mewn brawddeg neu weithle yn Gymraeg **(1 marc)**
  **ENW YSGOL YN UNIG – 0 MARC**
  **ENW YSGOL MEWN BRAWDDEG e.e. dw i'n mynd i ... – 1 MARC**
- **Hoff Chwaraeon** – unrhyw ateb synhwyrol e.e. rygbi, golff, gymnasteg … **(1 marc)**
- **Sut ydych chi'n cadw'n ffit?** unrhyw ateb synhwyrol e.e. mynd i'r gampfa, chwarae tennis, nofio bob dydd … **(1 marc)**
- **Pam hoffech chi ymaelodi?** – unrhyw ateb synhwyrol e.e. rydw i eisiau cadw'n ffit, fy hobi ydy gymnasteg … **(1 marc)**
- **Ble clywsoch chi am y clwb?** – unrhyw ateb synhwyrol e.e. yn y papur, yn yr ysgol, ar y poster … **(1 marc)**
- **Llofnod** – dim marc
- **Dyddiad** – y mis yn Gymraeg **(1 marc)**

**Mynegiant = 7 marc**

**2 farc** am bob brawddeg gywir / **1 marc** am ymadrodd estynedig (+berf) / mynegi barn berthnasol (hyd at 6 marc)

**1 marc** ychwanegol posibl am iaith e.e. sillafu, geirfa berthnasol – o leiaf **4** gair

Gwobrwyir y defnydd o frawddegau llawn ac amrywiaeth o gystrawennau wrth gyfleu'r wybodaeth berthnasol e.e. fy hoff chwaraeon ydy ... / Rydw i'n mwynhau ... / Hoffwn i wneud ffrindiau newydd / Dw i eisiau dysgu sgiliau ...

Gwobrwyir yn ogystal sillafu cywir a chyfathrebu ystyrlon.

Does dim modd gwobrwyo'r un gystrawen fwy na dwywaith.

Ni ellir dyfarnu marc mynegiant yn uwch na'r marc cynnwys.

---

© WJEC CBAC Cyf.

**C.3 (Sylfaenol)** [16 + ✓ = 4] = **[20]**
**C.1 (Uwch)**

(i) Llenwi grid – **14 marc (1 marc am bob ateb cywir)**

| ENW | Catrin (Howells) | Jacob (Preston) |
|---|---|---|
| BYW | Risca / Casnewydd | Harlech |
| RHIF FFÔN | 07892337442 | 098788266370 |
| E-BOST | cats.hows@aol.co.uk | presto129@googlemail.com |
| OED | 17 / un deg saith | 18 / un deg wyth |
| YSGOL/GWEITHLE | Ysgol Gwynllyw | Ysgol Ardudwy |
| SGIL ARBENNIG | Siarad Cymraeg a Saesneg / astudio Sbaeneg a Ffrangeg tystysgrif cymorth cyntaf / gweithio'n dda mewn tîm/ chwarae hoci/ gymnasteg/ seiclo/ nofio | Siarad Cymraeg a Saesneg / TGAU Ffrangeg a Sbaeneg / yn dda am wneud ffrindiau newydd |

(ii) **Cynnwys = 2 farc**

| CATRIN | JACOB |
|---|---|
| 1 marc am unrhyw **un** o'r atebion canlynol: Siarad Cymraeg a Saesneg / astudio Sbaeneg a Ffrangeg/ tystysgrif cymorth cyntaf / astudio lefel A Ffrangeg / Sbaeneg / eisiau astudio ieithoedd yn y coleg / eisiau ymarfer ei Sbaeneg/ gweithio'n dda mewn tîm. | 1 marc am unrhyw **un** o'r atebion canlynol: Eisiau astudio twristiaeth yn y coleg / eisiau dysgu mwy am bobl y byd / helpu gyda'r cwrs daearyddiaeth / cwrs twristiaeth / wedi gwylio sawl ffilm ar Batagonia/ gwneud ffrindiau newydd/ mudiad yr Urdd yn bwysig/ aelod o'r Urdd/ Siarad Cymraeg a Saesneg / TGAU Ffrangeg a Sbaeneg / |

**Mynegiant = 4 marc**

2 farc am bob brawddeg gywir e.e. Mae Catrin eisiau ymarfer ei Sbaeneg / Hoffai Jacob ddysgu mwy am bobl y byd / Bydd yn helpu gyda'r cwrs daearyddiaeth / Mae Catrin yn dweud ...

1 marc am frawddeg e.e. 'Jacob yn berson hapus ac yn hoffi dysgu am bobl y byd'.



© WJEC CBAC Cyf.

**C.4 (Sylfaenol) [20 marc]**
**C.2 (Uwch)**

**Rhan A : Cyfieithu – 10 marc** (1 marc yr un)

(1) bobl
(2) Rydyn
(3) ddeg
(4) newydd
(5) Hydref
(6) Theatr/ theatr
(7) ?
(8) ffoniwch/ ffôniwch
(9) ffurflen gais
(10) Pob

**Rhan B : Ysgrifennu e-bost [5 + ✓ = 5] = [10]**

**Cynnwys (5 marc)**

Rydych chi eisiau helpu'r cwmni drama gyda'r sioe. Rydych chi'n ysgrifennu nodyn at y cwmni. Rydych chi'n cynnig helpu.

Rhaid cynnwys:
– eich enw a pham rydych chi'n ysgrifennu (1)
– eich sgiliau arbennig (2)
– cwestiynau am y cwmni / Sioe (1)
– unrhyw beth arall sy'n berthnasol e.e. profiad ...(1)

Cyflwyniad = 1 marc
Sgiliau arbennig = 2 farc
Cwestiwn = 1 marc
Unrhyw beth arall = 1 marc

**Mynegiant = 5 marc**

5 O leiaf 3 cystrawen wahanol. 4 brawddeg gywir.
4 O leiaf 2 gystrawen wahanol. 3 brawddeg gywir.
3 O leiaf 2 gystrawen wahanol. 2 frawddeg gywir.
2 Ymgais dda i greu paragraff. O leiaf 1 frawddeg gywir.
1 Ymdrech i gyfathrebu gyda geirfa berthnasol, ond dim brawddegau cywir.
0 Dim i'w wobrwyo.

Ni ellir dyfarnu marc mynegiant yn uwch na'r marc cynnwys.
Ni ddylid gwobrwyo brawddegau sy'n amherthnasol i'r cynnwys.

**C.3 (Uwch)** **[24 + ✓ = 6] = [30]**

**(i)** Llenwi cronfa-ddata = **10 marc (1 marc am bob ateb cywir)**

| | |
|---|---|
| CYFEIRIAD | Chwarel y Penrhyn, Bethesda, Gwynedd, Gogledd Cymru (rhaid cael 2 o'r uchod) neu'r wefan www.zipworld.co.uk |
| RHIF FFÔN | 01248 601444 |
| E-BOST | help@zipworld.co.uk |
| ENW'R SWYDDOG MARCHNATA | Seb Thompson |
| DYDDIAD AGOR | Mawrth 2013 |
| UCHDER Y WIFREN | 500 troedfedd |
| HYD Y WIFREN | (tua) milltir/ y wifren zip hiraf (a chyflymaf) yn Ewrop |
| CYFLYMDER MWYAF | (cyrraedd) can milltir (yr awr) |
| RHAN O RAGLENNI TELEDU DIWEDDAR | Unrhyw **2** o'r canlynol – *Blue Peter*, *One Show*, Newyddion |

(ii) Rheolau = **6 marc**

2 farc am bob ateb cywir – unrhyw 3 o'r canlynol:
- 10 oed
- Pwyso rhwng 30 a 120 cilogramau
- Rhwng 4 a 6 ½ troedfedd
- Defnyddio staff profiadol
- Cael offer a dillad addas e.e. gwisgo helmed

(iii) E-bost at Bennaeth y Chweched = **14 marc**

Cynnwys = **8 marc**
- cyfarch pennaeth y chweched ac esbonio pwy ydych chi (hyd at 2 farc)
- sôn am ZipWorld Cymru (hyd at 2 farc) – ffeithiau, barn ...
- sôn am y cyfarwyddiadau o Dde Cymru (hyd at 2 farc)
- cloi yr e-bost yn effeithiol (hyd at 2 farc)

Mynegiant = **6 marc**

1 marc am bob brawddeg gywir.

Bore da/ Shwmae/ Diolch/ Hwyl – unrhyw 2 = 1 marc



© WJEC CBAC Cyf.

**C.4: (Uwch)**

**Ysgrifennu erthygl fer i'r cylchgrawn ysgolion uwchradd sirol. [15 + ✓ = 15] = [30]**

**Cynnwys = 15 marc**

- cyflwyno eich hunan a'ch rheswm dros ysgrifennu (1 marc am bob pwynt - hyd at **3 marc**)
- trafod pwysigrwydd cymwysterau/sgiliau arbennig (1 marc am bob pwynt - hyd at **4 marc**)
- cyfeirio at brofiadau gwaith gwahanol e.e. profiad gwaith, gwaith rhan-amser, gwaith gwirfoddol (1 marc am bob pwynt - hyd at **6 marc**)
- gorffen yr erthygl yn briodol (1 marc am bob pwynt - hyd at **2 farc**)

**Mynegiant = 15 marc**

Gwobrwyir:

- y gallu i gyfleu syniadau a mynegi barn yn llwyddiannus
- y gallu i amrywio patrwm y frawddeg i bwrpas
- geirfa addas a chymwys i ddelio â'r testun
- cywirdeb ac ymdrech i gynnal cysondeb o ran amserau'r ferf
- ymdrech i greu naws ac awyrgylch priodol trwy ddefnyddio idiomau, cymariaethau a.y.b
- ymdrech i argyhoeddi a pherswadio ynglyn â barn a syniadau

Ni ellir dyfarnu marc mynegiant yn uwch na'r cynnwys

| | |
|---|---|
| **13 - 15** | Mynegiant hynod o ystwyth a hyderus, gan ddefnyddio amrywiaeth dda o batrymau brawddegol. Geirfa am ymadroddion eang a chyfoethog sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus. Syniadau a barn aeddfed. Elfen gref o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir |
| **10 - 12** | Mynegiant ystwyth a hyderus gan ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa eang sy'n caniatáu cyfathrebu ystyrlon a llwyddiannus. Llawer o syniadau. Elfen gref o gywirdeb gan ddefnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir. |
| **7 - 9** | Mynegiant derbyniol ac ymdrech i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau brawddegol. Geirfa ac ymadroddion da ac ymdrech i gyfathrebu'n ystyrlon. Elfen eithaf da o gywirdeb iaith ond peth ansicrwydd gyda ffurfiau berfol. Tueddiad i gadw at y disgwyliadwy. |
| **4 - 6** | Yn is na'r canolig – defnyddio rhai patrymau brawddegol sylfaenol yn gywir. Ansicrwydd amlwg gyda ffurfiau berfol. Geirfa ac ymadroddion eithaf da ond ychydig iawn o syniadau a pheth anhawster wrth fynegi barn. |
| **1 - 3** | Ymdrech i gyfathrebu ond geirfa syml a chyfyngedig iawn. |
| **0** | Dim i'w wobrwyo. |



ⓗ WJEC CBAC Cyf.